
Hawdd ei Deall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Trosolwg o farwolaethau ymhlith Pobl ag anabledd dysgu yng Nghymru rhwng 2012 a 2022




Adam Watkins a Rachel Ann Jones
Gwelliant Cymru, Gweithrediaeth y GIG

Mai 2024

# Crynodeb Hawdd ei Ddarllen




Adroddiad yw hwn am bobl ag anabledd dysgu sydd wedi marw.




Daw'r wybodaeth yn yr adroddiad o'r deng mlynedd diwethaf 2012 – 2022.



Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad yn ymwneud â phobl yng Nghymru.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49870, ISBN digidol 978-1-83625-059-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg



Mae llawer o wybodaeth wahanol yn yr adroddiad ynghylch pam y bu farw pobl ag anabledd dysgu yng Nghymru.



**Deall**

Fe wnaethon ni ysgrifennu'r adroddiad hwn oherwydd rydyn ni eisiau deall beth achosodd y marwolaethau hyn.



Weithiau pan fydd pobl yn marw mae'n cael ei ddisgrifio fel rhywbeth y gellir ei osgoi.



Mae hyn yn golygu pe baen nhw wedi cael gofal gwahanol efallai na fyddent wedi marw.




Rydyn ni eisiau dysgu pam y bu farw pobl ag anabledd dysgu yng Nghymru.



Rydyn ni am i bobl gael gofal gwell pan fyddant yn sâl fel bod llai o  farwolaethau y mae modd eu hosgoi.




Hoffem ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn.



Fel bod pobl yn parhau i ddysgu a gwella pethau.




Cysylltwch â PolisiAnableddDysgu@llyw.cymru i ofyn am fwy o wybodaeth